# *Whiplash* (Chazelle, 2014)
## Dosbarthiad: Sêr

## Tasg agoriadol: gweld a gwneud nodiadau

**Edrychwch ar y cyswllt canlynol at ScreenSlam.Com, safle blog ffilmiau. Gwyliwch y cyfweliadau â'r sêr ffilm, Miles Teller a J.K. Simmons, yn ogystal â'r cyfweliad â Damien Chazelle.**

## Tasg 1 – Tasg Grŵp

**Trafodwch y manteision y gall seren eu sicrhau ar gyfer ffilm. Dylech chi ystyried y pwyntiau canlynol:**

- **denu arian gan fuddsoddwyr**
- **dosbarthu a hysbysebu'r ffilm**
- **denu cynulleidfaoedd**
- **creu cyffro a statws ar gyfer y ffilm.**

**Ewch ati i greu arddangosiad sy'n nodi'r ffyrdd y gall cyflogi seren ffilm helpu cynhyrchiad ffilm. Defnyddiwch eich enghreifftiau eich hun o sêr a ffilmiau i gefnogi'r pwyntiau rydych chi'n eu gwneud.**

**Os ydych chi wedi gweithio ar y ffilmiau eraill yn yr unedau – *Gravity*, *The World's End* a *The Machine* – cymharwch bwysigrwydd y sêr ar gyfer pob un o'r ffilmiau hynny. A oes mathau gwahanol o sêr?**

## Tasg 2 – Tasg Unigol

**Ymchwiliwch i gyn-yrfaoedd ac adolygiadau perfformiad Miles Teller a J.K. Simmons ac atebwch y cwestiynau canlynol:**

1. **Pa statws y mae'r sêr hyn yn gallu ei roi i Whiplash a pha gynulleidfaoedd y gallan nhw eu denu?**

2. **Sut mae'r cyfweliadau ar y blog hwn yn helpu i 'werthu' y ffilm?**

3. **Sut gallai'r ffilm helpu gyrfaoedd y sêr hyn?**